



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Creu ymgyrchoedd marchnata dwyieithog effeithiol

Tachwedd 2022

CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Yn y gorffennol, roedd ymgyrchoedd yn cael eu comisiynu, eu dylunio a'u creu gan dîm Cyfathrebu canolog yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Asiantaeth) yn Lloegr. Byddai cais yn dod yn eithaf hwyr yn y broses i gyfieithu'r cynnyrch terfynol i'r Gymraeg. Weithiau, byddai problemau wrth gyfieithu (e.e. gorfod cyfieithu '*puns*' ac acronymau Saesneg neu deitlau'n cyflythrennu), neu broblemau gyda'r cynllun ar gyfer hyrwyddo'r fersiwn Gymraeg, yn amlygu eu hunain yn rhy hwyr i allu eu datrys yn llwyddiannus.

O safbwynt y sefydliad, gallai hyn arwain at gostau ychwanegol yn sgil oedi neu orfod ail-wneud gwaith neu gomisiynu gwasanaethau ychwanegol. O safbwynt yr Uned Iaith Gymraeg (Uned), nid oedd yr elfen Gymraeg gystal ag y gallai fod am nad oedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn ddigonol o'r cychwyn cyntaf.

Beth wnaeth sbarduno'r newid?

Roedd yna awydd i sicrhau bod proses gadarn ar waith ar gyfer creu ymgyrchoedd dwyieithog, er mwyn osgoi problemau a sicrhau bod y cynnyrch terfynol o'r ansawdd gorau posibl ac yn cyrraedd y gynulleidfa darged ehangaf bosibl yn y ddwy iaith.

Beth oedd y rhwystrau yr oedd angen ymdrin â hwy?

Roedd amrywiaeth o ffactorau gwahanol a allai amharu ar y broses o greu ymgyrchoedd dwyieithog:

- Contractiwr allanol yn cael ei gomisiynu i greu'r ymgyrch, heb friff yn cynnwys digon o bwyslais ar yr angen i greu ymgyrch ddwyieithog a'r holl ystyriaethau cysylltiedig;
- Tybiaeth gan dimau eraill y byddai ymgyrchoedd a'r cysyniadau creadigol sylfaenol yn cyfieithu'n ddiraferth ac yn fecanyddol o'r Saesneg i'r Gymraeg;

- Copi a sgrïptiau anodd eu cyfieithu, yn dibynnu ar amwyseiriau anaddas neu sefyllfaoedd diwylliannol oedd yn rhy benodol i Loegr, heb ystyried p'un a fyddai'n addas i Gymru;
- Fideos 30 eiliad yn cael eu creu yn Saesneg, ond gyda'r Gymraeg yn naturiol hirach byddai angen torri ambell air neu frawddeg, a gwneud hynny o dan bwysau amser, a allai arwain at gamgymeriadau;
- Adnoddau yn cael eu dylunio mewn ffordd nad oedd yn cefnogi dwyieithrwydd, er enghraifft baneri hysbysebion ar gyfer gwefannau, lle ddylai'r rhain fod wedi bod yn ddwyieithog;
- Cynllun cyfathrebu yn canolbwyntio ar gyfryngau neu lwyfannau nad oedd yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg, e.e. hysbysebion rhwng podlediadau.

Yn ei hanfod, am nad oedd y gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu hystyried o'r cychwyn, gallai problemau amlygu'u hunain ar bob cam o'r broses, ac heb lawer o amser i'w datrys.

RHOI'R PROSES NEWYDD AR WAITH

Beth oedd y camau a roddwyd mewn lle i gychwyn y newid?

- Cynnwys aelod o staff yr Uned ar Fwrdd Prosiect yr ymgyrch o'r cychwyn, ynghyd ag aelod o dîm Cyfathrebu Cymru, a hynny'n arwain at feithrin perthnasau cryf rhwng yr Uned â'r rheiny sy'n creu ymgyrchoedd;
- Yr Uned yn llunio'r gofynion Cymraeg i'w cynnwys ym mrieff yr ymgyrch, fel bod pawb sy'n gweithio ar yr ymgyrch yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys unrhyw gontractwyr allanol;
- Ymgynghori â'r Uned ar bob cam o'r broses fel eu bod yn cael gweld y syniadau creadigol, y dyluniad, y delweddau ac ati, ac yn gallu nodi unrhyw elfennau na fyddent efallai'n gweithio gystal yn Gymraeg, neu awgrymu dewisiadau cyfatebol y gellir eu defnyddio'n benodol yng Nghymru;
- Cyd-ddrafftio'r cynnwys Cymraeg a Saesneg ochr yn ochr, er mwyn creu penawdau a thestun ystyrion, idiomatig, naturiol yn Gymraeg ac osgoi gorfod cyfieithu ar frys;
- Gweithio gyda thîm Cyfathrebu Cymru i greu cynllun cyfathrebu penodol i Gymru, nodi partneriaid addas yng Nghymru a all rannu'r ymgyrchoedd ar ran yr Asiantaeth, a thargedu cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.
- Yr Uned yn gweithio'n rhagweithiol ar bob elfen gan ei gwneud mor ddi-ffwdan â phosibl i'r elfen Gymraeg gael ei chreu. Mae'r Uned yn gwneud cymaint â phosibl ein hunain, gan gynnwys:
 - Cyfieithu pob elfen;
 - Cymeradwyo a chastio actorion Cymraeg ar gyfer hysbysebion teledu a radio;
 - Cydgysylltu'n uniongyrchol â dylunwyr a chysodwyr i sicrhau ansawdd yr adnoddau Cymraeg;

- Uwchlwytho adnoddau ac ymgyrchoedd Cymraeg yr Asiantaeth i'r wefan;
- Rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yr Asiantaeth eu hunain, gan uwchlwytho holl adnoddau'r ymgyrch, postio'r negeseuon a rhannu unrhyw 'retweets' ac ati.

Dylanwadu ar reolwyr a derbyn cydsyniad ar lefel uwch

Roedd angen cydsyniad rheolwyr yr adran Gyfathrebu. Manteisiwyd ar y tir cyffredin amlwg – sef yr awydd i greu ymgyrchoedd creadigol, effeithiol a rhannu negeseuon iechyd y cyhoedd hollbwysig yr Asiantaeth â'r gynulleidfa ehangaf bosibl, gan sicrhau'r gwerth mwyaf am arian.

Cafwyd trafodaethau ar lefel uwch ynghylch talu am yr elfen Gymraeg. Gan fod y trefniadau gwaith yn golygu bod yr ymgyrch yn cael ei datblygu fel un ymgyrch ag iddi ddau gyfrwng, (yn hytrach nag ymgyrch Saesneg, a'r cyfieithu yn gam ar wahân ar ddiwedd y broses), roedd achos cryf dros gytuno y dylai'r gyllideb ganolog ar gyfer yr ymgyrch gwmpasu'r ddwy iaith.

A oedd angen trefnu a chynnal hyfforddiant o gwbl?

Roedd angen i bob aelod o staff yr Uned gael hyfforddiant i ddod yn olygyddion gwe, i ddefnyddio'r llwyfannau ar gyfer rheoli'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, a'r wefan Canva i greu adnoddau Cymraeg lle bo angen. Cafodd hyn ei wneud yn fewnol gan y tîm digidol, ac mae uwchlwytho cynnwys Cymraeg i'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan sylweddol o waith yr Uned erbyn hyn. Mae'r Uned hefyd yn helpu i gynllunio a chreu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol sy'n clymu â diwylliant Cymru.

Cafodd aelodau perthnasol o staff hefyd hyfforddiant cyfryngau fel eu bod yn gallu cynnal cyfweiliadau dwyieithog â'r wasg os oedd diddordeb yn yr ymgyrch.

Beth yw trefniadau ymarferol y broses newydd?

Gyda phob ymgyrch, mae'r Uned yn dilyn y camau canlynol:

- Pennu aelod o staff yr Uned i arwain ar elfen Gymraeg bob ymgyrch, a bod yn rhan o'r Bwrdd Prosiect;
- Cyd-ddrafftio'r Gymraeg a'r Saesneg, gan nodi unrhyw broblemau sy'n codi o'r cychwyn cyntaf;
- Yr Uned yn gweithio'n ymarferol gyda'r dylunwyr a'r asiantaethau creadigol ar yr elfen Gymraeg;
- Cytuno ar gynllun cyfathrebu gyda thîm Cyfathrebu Cymru i achub ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r gynulleidfa Gymraeg;
- Uwchlwytho deunyddiau'r ymgyrch i'r wefan a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Gwneir ymdrech barhaus i gynnal y berthynas waith gyda chydweithwyr yn y timau Cyfathrebu. Mae'r Uned yn cynnal sesiwn gyda phob aelod newydd o staff Cyfathrebu sy'n dechrau yn yr Asiantaeth, er mwyn esbonio gofynion y cynllun iaith, y ffordd rydym yn gweithio gyda'r tîm cyfathrebu ar ymgyrchoedd, a'r hyn y bydd angen iddyn nhw ei wneud o ran y Gymraeg fel rhan o'u swydd.

Mae'n fanteisiol bod tri o'r pedwar aelod o staff yn ein tîm cyfathrebu yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Asiantaeth wedi rhoi Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ar waith, ac mae o leiaf un o'r swyddi yn y tîm cyfathrebu wedi'i nodi fel 'Cymraeg hanfodol', er mwyn sicrhau bod aelod dwyieithog o'r tîm cyfathrebu ar gael bob amser i lywio trafodaethau a chynghori ar ofynion Cymru a'r Gymraeg. Mae'r swyddi eraill wedi'u nodi fel 'Cymraeg dymunol' ac mae'r Asiantaeth yn rhoi gwerth mawr ar sgiliau dwyieithog wrth recriwtio.

Y TRAWEFFAITH

Beth yw traweffaith y broses newydd?

Mae proses glir, sefydledig ar gyfer creu ymgyrchoedd dwyieithog erbyn hyn. Mae pob elfen o'r ymgyrch yn cael ei hystyried a'i chynllunio, ac mae cyfle i'r Uned drafod opsiynau amgen a fydd yn gweithio'n dda yng Nghymru os bydd angen – e.e. dod o hyd i ddylanwadwyr Cymraeg penodol ar gyfer ymgyrchoedd penodol. Ni chaiff unrhyw benderfyniadau eu gwneud am yr elfen Gymraeg heb geisio barn, cyngor ac arbenigedd yr Uned.

Beth yw prif lwyddiannau a manteision y cynllun?

Mae'r arfer gweithio hwn yn galluogi'r Asiantaeth i greu ymgyrchoedd dwyieithog cynhwysfawr, effeithiol a naturiol, sy'n cyrraedd cynulleidfa eang, yn manteisio ar amrywiaeth o gyfryngau, ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Mae negeseuon hollbwysig yr Asiantaeth am ddiogelwch a hylendid bwyd yn cael eu cyfleu'n effeithiol yng Nghymru i bobl yn eu dewis iaith. Yn ogystal â'r effaith gadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, y gobaith yw bod yr ymgyrchoedd dwyieithog hyn yn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd yng Nghymru yn narpariaeth yr Asiantaeth, ac yn dangos bod yr Asiantaeth yn gorff sy'n parchu ei chynulleidfa Gymraeg.

Oes tystiolaeth yn dangos gwerth am arian/ amser?

Nid yw'r Asiantaeth yn monitro ystadegau gwerth am arian/ amser mewn cysylltiad ag ymgyrchoedd Cymraeg fel mater o drefn. Mae'r rhan fwyaf o'r data a gesglir yn monitro cyrhaeddiad ymgyrchoedd yng Nghymru, gan gwmpasu'r ddwy iaith. Barn yr Asiantaeth yw nad oes modd pennu 'gwerth' y Gymraeg yn seiliedig ar ddata o'r fath. Mae'r ymgyrchoedd dwyieithog yn rhan hanfodol o ymdrech yr Asiantaeth i gyfleu ei negeseuon iechyd i'r cyhoedd yn y modd mwyaf effeithiol i bobl yng Nghymru, yn rhan o'u hymrwymiad i'w hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r Asiantaeth yn ystyried ffyrdd o gasglu mwy o ddata ar gyrhaeddiad ymgyrchoedd o hyn ymlaen, gan edrych ar gyrhaeddiad yr elfen

Gymraeg fel rhan o hynny. Mae'r Asiantaeth yn gwybod e.e, fod y 'gyfradd glicio' ar fideo cyfrwng Cymraeg a gynhyrchwyd ar gyfer yr ymgyrch 'Cofrestru Busnesau Bwyd' ddiweddar, deirgwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer y fideo Saesneg yn Lloegr.

GWERTHUSO

Oes gwelliannau pellach i'w gwneud ac oes unrhyw beth y byddai'r Asiantaeth yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

Mae'r Asiantaeth ar fin contractio cwmni materion cyhoeddus allanol i gynnal archwiliad o'n cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw ein cynnwys, ein dull a'n platfformau dwyieithog ar hyn o bryd, sut allwn ni wella ar ein cynnwys dwyieithog ac i amlygu arfer gorau yn y maes, yn arbennig gan sefydliadau eraill tebyg.

Pa ffactorau, yn nhyb yr Asiantaeth, sydd yn drosglwyddadwy pe bai sefydliad arall yn ystyried mabwysiadu neu addasu proses debyg?

Mae meithrin perthynas waith gadarn gyda'r adran gyfathrebu sy'n cynhyrchu'r ymgyrchoedd a gofyn am wahoddiad i fod yn rhan o'r bwrdd prosiect yn allweddol. Erbyn hyn mae'r Uned yn cael ein cynnwys yn ddi-ofyn ac mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'r cynllunio o'r cychwyn cyntaf.

Mae wedi bod yn hanfodol bwysig hefyd meithrin y galluoedd a'r sgiliau technegol sydd eu hangen ar yr Uned er mwyn gallu gweithio ar yr ymgyrchoedd hyn mewn ffordd ymarferol a rhagweithiol, heb orfod mynd ar ofyn timau eraill.

BARN Y COMISIYNYDD

Mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod hi'n allweddol fod sefydliadau'n cynllunio eu hymgyrchoedd cyhoeddus gyda'r Gymraeg yn ystyriaeth ganolog o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal â rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr, gall deunyddiau dwyieithog hefyd gynyddu amlygrwydd y Gymraeg, a chymell pobl a fyddai fel arall yn defnyddio'r Saesneg i roi tro ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn nogfen gyngor y Comisiynydd sy'n ymwneud â hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg¹, nodir y dylai sefydliadau gymryd nifer o gamau penodol wrth gynllunio a datblygu ymgyrch hyrwyddo:

- Adnabod cynulleidfaoedd
- Llunio neges effeithiol
- Defnyddio negeswyr effeithiol a dibynadwy
- Dewis dulliau cyfathrebu addas; a
- Bod yn rhagweithiol

¹ [Hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg \(comisiynyddygydraeg.cymru\)](https://www.comisiynyddygydraeg.cymru/)

Mae'r Comisiynydd yn edrych ymlaen at weld sefydliadau eraill yn mynd ati'n rhagweithiol i gynllunio ymgyrchoedd hyrwyddo creadigol ac effeithiol, gyda'r Gymraeg yn eu canol.